

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward M a Ward Oakwood, Ysbyty  
Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 17 a 18 Ionawr 2023

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-80535-839-8

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	18
4.	Y camau nesaf .....	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 17 a 18 Ionawr 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Oakwood - ward feddygol ag 17 o welyau, gan gynnwys 4 gwely dibyniaeth uchel
- Ward M - ward lawfeddygol â 24 o welyau

Ni wnaethom adolygu'r Uned Asesu Pediatrig fel rhan o'r arolygiad hwn, ond gwnaethom wahodd y staff i gwblhau un o holiaduron AGIC oherwydd bod y staff yn cyflenwi yn yr adrannau hyn yn aml.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn rhoi profiad cadarnhaol ar y cyfan i'r cleifion a'u perthnasau pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Ar y cyfan, roedd y cleifion a'u perthnasau yn canmol y ffordd roedd gofal a thriniaethau wedi'u darparu.

Roedd y staff wedi gwneud ymdrech i gynnal amgylchedd a oedd yn addas ar gyfer plant, pobl ifanc a'u perthnasau. Fodd bynnag, roedd yr amgylchedd hen ffasiwn yn cyfyngu ar hyn yn ogystal â'r diffyg lle addas nad yw'n adlewyrchu gwasanaeth pediatrig modern.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi amserlen i AGIC ar gyfer y gwaith adnewyddu arfaethedig
- Ystyried sut i gyfleu proses CAMHS yn effeithiol i'r cleifion a'u perthnasau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd garedig a pharchus
- Yn gyffredinol, roedd dulliau da ar waith i'r cleifion a'u perthnasau roi adborth ac i'r staff weithredu ar yr adborth hwn.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn rhoi lefel ymatebol ac amserol o ofal a thriniaeth i'r cleifion ar y cyfan. Dangosodd y staff wybodaeth dda mewn perthynas â darparu gofal priodol sy'n benodol i anghenion plant a chleifion ifanc.

Rydym wedi gwneud sawl argymhelliad i'r gwasanaeth wella'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn llwyr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod modd glanhau pob ward yn effeithiol ac y gweithredir yn amserol ar y camau a nodir mewn archwiliadau o brosesau atal a rheoli heintiau
- Cryfhau agweddau ar gadw cofnodion mewn perthynas â monitro hylif, rhoi meddyginiaeth a gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Sicrhau bod hyfforddiant a gwybodaeth y staff mewn perthynas â sepsis yn cael eu cryfhau, gan gynnwys ystyried rhoi adnodd sepsis ar waith

- Myfyrio ar ei brosesau ar gyfer nodi ac uwchgyfeirio claf sy'n sâl er mwyn gwella'r dulliau presennol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn esbonio materion clinigol i'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd glir a phriodol i'w hoedran
- Dangosodd y staff wybodaeth dda mewn meysydd, gan gynnwys atal a rheoli heintiau a rheoli meddyginiaethau
- Roedd prosesau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer rheoli materion diogelu.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y ward yn cael ei rheoli'n effeithiol ac roedd yr holl staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses arolygu. Dangosodd y staff y gwnaethom arsylwi arnynt a rhyngweithio â nhw ffocws clir ar y claf ac roeddent yn awyddus i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion a'u perthnasau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Myfyrio ar ymatebion a sylwadau'r staff a roddir yn yr adroddiad hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ar y cyfan, roedd y staff yn cefnogi'r cymorth a ddarperir gan reolwyr.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cawsom 22 o holiaduron yn ôl ac roedd yr adborth gan y cleifion a'u gofalwyr yn gadarnhaol. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r gofal yn dda iawn”*

*“Roedd y nyrsys chwarae a'r holl nyrsys yn dda, maent yn eistedd ac yn sgwrsio â ni”*

*“Mae'r nyrsys wedi bod yn gyfeillgar iawn ac wedi gwneud i fi deimlo'n gyfforddus”*

### Cadw'n iach

#### Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd rhywfaint o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael ar y wardiau, a oedd yn cynnwys posterï a hysbysfyrddau yn ymwneud â bwyta'n iach, iechyd meddwl a rhywfaint o wybodaeth am gyflyrau penodol. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cleifion wedi bod yn rhan o greu rhai o'r deunyddiau hyn. Fodd bynnag, roedd y darpariaethau hyn yn gyfyngedig o ran eu cwmpas ac nid oeddent yn cynnwys digon o ddeunyddiau i'r cleifion a'u perthnasau allu mynd â chopi adref gyda nhw. Nid oedd digon o ddeunyddiau ar gael mewn ieithoedd eraill chwaith, gan gynnwys yn Gymraeg.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o ddeunyddiau ar gael i'r cleifion a'u perthnasau er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau ac ymgyrchoedd hybu iechyd cenedlaethol amrywiol a chyfeirio at wasanaethau cymorth lleol.

### Gofal ag urddas

#### Gofal ag urddas

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion a'u gofalwyr wrthym fod y plant wedi cael gofal ag urddas gan y staff. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd garedig a pharchus. Gwelwyd y staff yn siarad mewn ffordd dawel a sensitif mewn manau agored, ond dywedodd un claf a'i berthynas wrthym y byddent wedi gwerthfawrogi cael lle preifat i drafod agweddau sensitif ar ei ofal er mwyn atal pobl eraill rhag digwydd clywed. Roedd yn gadarnhaol nodi bod ystafell dawel



bellach ar gael pe bai angen cael unrhyw sgysiau anodd neu gyfrinachol. Cynghorir y bwrdd iechyd i atgoffa'r cleifion a'u perthnasau am yr ystafell hon rhag ofn yr hoffent ei defnyddio.

Gwelsom fod ymdrech i hyrwyddo décor cyfeillgar i blant yn amgylchedd cyffredinol y ward, ond roedd hyn yn gyfyngedig ar adeg yr arolygiad oherwydd bod diffyg lle addas. Ers ein harolygiad diwethaf, nid oedd mynediad i'r gegin i rieni na chyfleusterau ystafell ymolchi, yr ardal fwyta na'r ardal i bobl ifanc ar Ward Oakwood mwyach. Oherwydd bod dŵr wedi gollwng yn ddiweddar, nid oedd yr ystafell chwarae ar gael yn ystod yr arolygiad chwaith. Fodd bynnag, gwelwyd y staff chwarae yn rhoi teganau a chymorth i'r cleifion wrth ymyl eu gwely.

Pan ofynnwyd yn holiadur AGIC sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, roedd ymatebion y staff yn cynnwys y canlynol:

*“Nid yw'r amgylchedd yn ddigonol i'r plant, eu gofalwyr na'r staff. Angen ward newydd wedi'i moderneiddio a gyda chyfleusterau llawer gwell...Toiledau anabl, system botymau galw newydd, toiledau ar wahân (bechgyn/merched). Ystafell i rieni, cegin fwy...”*

*“Mae angen ardal bwrpasol sy'n fwy addas i blant ac sydd â mwy o le”*

*“Mae dŵr yn gollwng ym mhob man, nid yw'n ddiogel ac nid yw'n edrych yn bleserus iawn nac yn broffesiynol. Mae cael bwcedi ym mhob man yn beryglus.”*

Gwnaethom nodi bod cynlluniau adnewyddu ar waith, a chawsom wybod y byddai'r rhain yn ceisio creu amgylchedd mwy priodol i'r cleifion a'u perthnasau. **Rhaid i'r bwrdd iechyd roi amserlen i AGIC ar gyfer cwblhau'r gwaith adnewyddu arfaethedig.**

### **Cyfathrebu'n effeithiol a gwybodaeth i gleifion**

Rhoddodd yr holl gleifion a pherthnasau y gwnaethom siarad â nhw ystod o sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â chyfathrebu gan bob tîm ar y ward.

Dywedodd yr holl gleifion a'u perthnasau wrthym eu bod yn teimlo'n wybodus o ran eu gofal a'u triniaeth, a gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o wybodaeth benodol am driniaethau ar gael. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y taflenni ar ôl llawdriniaeth a rhyddhau wedi cael eu hadolygu ers 2020. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau pan fo angen er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol yn glinigol.**

Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol a oedd yn briodol i'w hoedran a'u hanghenion unigol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys

teganau a gwrthrychau chwarae eraill i ddisgrifio a dangos gweithdrefnau/triniaethau clinigol er mwyn lliniaru unrhyw bryderon posibl.

Gwelsom fod rhai staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y wardiau ac roedd logo 'Iaith Gwaith' i'w weld ar wisgoedd. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o gyfleusterau'r llinell iaith i ddiwallu anghenion iaith eraill.

## Gofal amserol

### Mynediad Amserol

Roedd cleifion yn cael eu derbyn 24 awr y dydd naill ai o'r Uned Achosion Brys Plant ar safle'r ysbyty, o'r Uned Asesu Pediatrig, neu byddent yn cael eu derbyn yn uniongyrchol os cawsant eu cynghori gan y ward yn flaenorol. Caiff cleifion sydd angen triniaethau llawfeddygol eu derbyn i Ward M naill ai ar gyfer gofal dewisol wedi'i gynllunio neu mewn argyfwng.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfraniad meddygol yn ymatebol a bod ganddynt gydberthnasau gwaith da gyda chydweithwyr meddygol. Dywedodd y staff nyrsio wrthym y gallent uwchgyfeirio pryderon at sylw'r staff meddygol unrhyw bryd a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

O fewn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, roedd gofal a thriniaeth nyrsio yn cael eu darparu i'r cleifion mewn da bryd ac roedd cynlluniau gofal ar waith i gefnogi hyn. Gwelsom y staff yn diwallu anghenion y cleifion wrth ymyl eu gwely mewn modd amserol.

Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion a'u perthnasau wrthym yr hoffent fod wedi cael rhagor o wybodaeth am broses atgyfeirio CAMHS, gan gynnwys pryd y byddai'r tîm CAMHS yn eu gweld. Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i rannu gwybodaeth am ddarpariaeth CAMHS â chleifion a'u perthnasau er mwyn sicrhau y caiff pryderon a disgwyliadau eu hystyried yn briodol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth a hawliau pobl

Roedd tîm amlddisgyblaethol ar bob ward a oedd yn rhoi gofal a thriniaeth i gleifion yn unol â'u hanghenion, gan gynnwys eu hoedran a'u cam datblygu. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at staff nyrsio a staff meddygol arbenigol hyfforddedig pediatrig, arbenigwyr chwarae, a chysylltiadau â thimau clinigol ar draws safle ehangach yr ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd therapydd galwedigaethol pediatrig ar gael a fyddai'n hybu annibyniaeth ymhellach. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried a fyddai therapydd galwedigaethol yn gwella'r broses o ddarparu gofal i'r grŵp cleifion hwn.

Nodwyd bod mentrau i gefnogi annibyniaeth, megis trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion, yn bwysig i'r staff. Fodd bynnag, ni welsom fod gweithgarwch clir ar waith i gefnogi hyn. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried mentrau ychwanegol i hybu annibyniaeth.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod grŵp profiad cleifion ifanc. Dywedodd y staff wrthym er bod lefelau ymgysylltu wedi lleihau yn ystod y pandemig, roedd cynlluniau ar waith i sicrhau eu bod yn cynyddu.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Roedd ystod o ddulliau i gleifion a'u perthnasau ddarparu adborth. Gwelsom enghreifftiau o ffurflenni adborth priodol i oedran i gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd adborth hefyd yn cael ei gasglu'n electronig gan ddefnyddio arolwg cod QR ac roedd gwybodaeth am y cynllun Gweithio i Wella ar gael ar Ward M. Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gael ar Ward Oakwood hefyd.

Roedd yr adborth mewnol y gwnaethom edrych arno yn gadarnhaol gan mwyaf ac roedd posteri yn dangos pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i awgrymiadau gan gleifion a pherthnasau wedi'u harddangos ar Ward M. Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod canlyniadau adborth, megis 'Dywedoch chi, Gwnaethom Ni', yn cael eu harddangos ar Ward Oakwood.

Caiff adborth a chwynion ffurfiol eu hadolygu gan uwch-reolwyr drwy broses llywodraethu briodol. Ar y cyfan, cafodd y pryderon a welsom ymateb amserol ac yn unol â'r broses Gweithio i Wella.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mynediad i'r wardiau yn cael ei reoli drwy system alw er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Gwelwyd y staff yn herio ymwelwyr â'r wardiau mewn ffordd broffesiynol pan nad oedd yn glir pa gleifion roeddent yn ymweld â nhw.

Roedd allanfa dân rhwng Oakwood a ward oedolion gyfagos. Roedd y staff yn ymwybodol bod angen cau'r drws hwn yn ddiogel a gwnaethom gadarnhau nad yw'n cael ei ddefnyddio fel ffordd drwodd i rywle arall. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y drws hwn wedi'i gloi ar ail ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn a sicrhodd fod y drws yn cael ei gloi ar unwaith. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws hwn yn cael ei gau'n ddiogel bob amser ac fe'i cynghorir i ystyried arwyddion priodol neu system larwm i roi gwybod i'r staff pan fydd ar agor.**

Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod cyfarpar, yn enwedig ar Ward M, wedi'i storio'n briodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd diffyg lle storio ar gyfer eitemau mawr yn y ddwy ward, a oedd yn peri perygl baglu i gleifion ifanc, ymwelwyr a staff, a gallai beri risg pe bai argyfwng. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o gynlluniau adnewyddu'r wardiau.**

Nodwyd bod y drws i'r ystafell lanhau y tu allan i Ward M a'r Uned Asesu ar agor, a bod y cwpwrdd y tu mewn ar agor er bod modd ei gloi. Codwyd y mater hwn gydag aelod o'r tîm glanhau a chafodd ei gloi ar unwaith.

### Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Ni chafodd y maes hwn ei adolygu'n fanwl oherwydd y grŵp cleifion. Fodd bynnag, yng nghofnod un claf a oedd yn wynebu risg o friwiau pwyso, cadarnhawyd bod asesiad risg wedi'i gwblhau mewn perthynas â'r claf hwn a bod cynllun gofal priodol ar waith. Gallai'r staff drafod y broses o reoli gofal croen yn hyderus a'r llwybr a fyddai'n cael ei ddilyn.

### Atal cwympiadau

Cadarnhawyd bod rheoli cwympiadau yn rhan o'r llwybr gofal cleifion pan fo angen. Gallai'r staff drafod dulliau atal cwympiadau yn hyderus ac roeddent yn ymwybodol o gymhorthion symudedd sydd ar gael.

## **Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod y wardiau yn ymddangos yn lân ac yn drefnus iawn ar y cyfan. Gwelwyd bod manau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml, megis toiledau, yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd diffyg lle storio cyffredinol ar y ddwy ward yn golygu nad oedd rhai rhannau o'r wardiau yn cael eu glanhau'n effeithiol. Roedd hyn yn nodedig ar Ward Oakwood, yn enwedig yn yr ystafell drin a oedd yn cael ei defnyddio at ddibenion niferus. Nodwyd hyn mewn archwiliad gan dîm atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd ym mis Hydref 2022 hefyd. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd glanhau'r holl ardaloedd yn y wardiau yn effeithiol ac y gweithredir yn amserol ar y camau a nodir mewn archwiliadau o brosesau atal a rheoli heintiau.**

Gwelsom y rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol ac yn cynnal hylendid dwylo da. Cefnogwyd hyn gan archwiliadau hylendid dwylo a noeth o dan y penelin, a gwblhawyd yn gyson ac a gafodd sgôr gadarnhaol.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys deall egwyddorion rheoli heintiau a sut roeddent yn berthnasol i'w rolau, trefniadau hylendid dwylo, gweithdrefnau i'w dilyn pe byddent yn cael anaf nodwydd, a sut i ddihalogi cyfarpar a rennir a dyfeisiau meddygol a gaiff eu haildefnyddio.

Roedd lle ar y wardiau i ddarparu ar gyfer cleifion a oedd naill ai â risg uchel o ddatblygu haint neu a oedd yn heintus. Gallai'r staff ddisgrifio'r gweithdrefnau a fyddai'n cael eu dilyn yn y naill senario neu'r llall, gan gynnwys sut y byddai gofal yn cael ei ddarparu a sut y byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu staffio'n briodol.

Roedd rhai mân faterion cynnal a chadw yn aros i'w cwblhau ar y wardiau a oedd yn effeithio ar allu'r staff i gynnal amgylchedd cwbl lân. Gwnaethom gadarnhau bod y rhain yn cael eu cofnodi'n brydlon, ond y gellid cymryd amser i fynd i'r afael â nhw oherwydd blaenoriaethau eraill yr adran ystadau. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym y byddai'r gwaith adnewyddu a gynlluniwyd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Cadarnhawyd bod dyfeisiau diogel ar gyfer offer miniog yn cael eu defnyddio a bod bin offer miniog â chaeadau yn cael eu cadw ar y ward oddi wrth y cleifion. Nodwyd bod biniau offer miniog llawn yn cael eu storio'n ddiogel wrth iddynt aros i gael eu casglu.

Roedd cyfarpar glanhau a sylweddau peryglus yn cael eu storio'n ddiogel ar y ward er mwyn atal cleifion ifanc rhag cael gafael arnynt drwy ddamwain.

## **Maeth a hydradu**

Yng nghofnodion y cleifion a welsom, gwnaethom gadarnhau bod anghenion maethol yn cael eu trafod â pherthnasau a'u dogfennu'n briodol wrth dderbyn cleifion. Lle bo angen, roedd cymeriant bwyd a hylif yn cael ei fonitro'n briodol, ond nid oedd yr hylif a gynhyrchwyd yn cael ei gofnodi'n gyson ym mhob achos. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hylif yn cael ei fonitro a'i gofnodi yn ôl y gofyn.** Ar y cyfan, roedd y staff yn wybodus ynglŷn â sut i ddiwallu anghenion maeth ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon yn hyn o beth fel y bo'n briodol.

Dywedodd y cleifion a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar yr opsiynau bwyd a oedd ar gael a bod y dewisiadau yn addas i blant ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod adolygiad yn mynd rhagddo i adlewyrchu dewisiadau bwyta iachach. Gwelsom brydau yn cael eu darparu mewn modd amserol a rhoddodd y staff help i'r cleifion pan fo angen. Roedd bwyd a diod ysgafn addas ar gael ar y ward ar gyfer cleifion a'u perthnasau y tu allan i amseroedd bwyd.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom sampl o siartiau cyffuriau'r cleifion a chanfod bod y rhain wedi'u cwblhau'n gywir ar y cyfan. Roedd manylion y cleifion, gan gynnwys eu halergeddau a'u pwysau, wedi'u cofnodi drwyddi draw, ac roedd y feddyginiaeth a roddwyd wedi'i chofnodi'n glir heb unrhyw fylchau. Fodd bynnag, er bod cyffuriau yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan gawsant eu rhagnodi gyntaf, nid oedd yr holl gyffuriau yn cael eu cydlofnodi pan oedd angen. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth ei gwirio ddwywaith a'i chydlofnodi yn ôl yr angen.**

Gwelsom fod meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, wedi'u trefnu'n dda a'u storio'n ddiogel. Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n gywir a llofnodwyd amdanynt yn gywir, ac roedd meddyginiaethau sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu monitro'n ddyddiol yn gyson. Fodd bynnag, ar Ward Oakwood, nodwyd bod y cwpwrdd meddyginiaethau wedi cael ei adael heb oruchwyliaeth gyda'r allweddi yn y clo am gyfnod. Dywedodd y staff fod hyn rhag ofn y byddai angen meddyginiaethau mewn argyfwng. Gwnaethom gynghori'r aelod o'r staff i sicrhau nad yw'r cwpwrdd yn cael ei adael heb oruchwyliaeth gyda'r allweddi gerllaw.

Gwelsom feddyginiaethau'n cael eu rhoi i'r cleifion wrth ymyl eu gwely. Cadarnhawyd bod y staff yn gwisgo ffedogau coch i ddangos na ddylid tarfu arnynt, ac roedd y staff yn gwirio rhwymynnau breichiaur cleifion cyn rhoi meddyginiaeth. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth gan y staff am y meddyginiaethau roedd eu plant yn eu cael, gan gynnwys y rhesymau dros eu defnyddio. Hefyd, dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y staff i barhau i roi meddyginiaethau gartref ar ôl i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty.

Roedd gan y wardiau dîm fferylliaeth arbennig a ddisgrifiodd gydberthynas waith dda â staff y ward. Mynegodd staff y ward yr un safbwyntiau o ran cyfraniad y tîm fferylliaeth. Cadarnhaodd y fferylllydd y gwnaethom siarad ag ef fod archwiliadau o'r wardiau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac nad oedd unrhyw bryderon ynghylch y wardiau.

Disgrifiodd y staff drefniadau amserol ac effeithiol ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau y tu allan i oriau.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd gweithdrefnau clir ar waith gan y bwrdd iechyd i'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith yng nghyd-destun eu dyletswyddau.

Ar y cyfan, roedd y staff yn wybodus o ran materion diogelu sy'n berthnasol i blant ac roeddent yn cael eu cefnogi gan nyrs arwain ar gyfer diogelu. Disgrifiodd y staff gydberthnasau gwaith da gyda thîm diogelu'r bwrdd iechyd er mwyn rheoli unrhyw bryderon yn effeithlon a'u huwchgyfeirio pan fo angen.

Cadarnhawyd bod y staff wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau yn ystod eu cyfnod sefydlu ac yn rheolaidd wedi hynny.

Nid oedd angen arsylwi ar unrhyw gleifion yn barhaus yn ystod yr arolygiad, ond roedd angen lefelau uwch o arsylwi ar rai cleifion. Mynegwyd hyn yn briodol mewn sgrymiau diogelwch staff ddwywaith y dydd ac roedd y staff yn ymwybodol o'r cleifion perthnasol.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd dyfeisiau a chyfarpar meddygol ar y wardiau wedi cael eu harchwilio neu eu gwasanaethu yn ystod yr amserlenni priodol. Fodd bynnag, nodwyd bod storio cyfarpar yn broblem am fod lle yn brin. Nododd rhai aelodau o'r staff nad oedd modd gwefru cyfarpar yn llawn cyn ei ddefnyddio o ganlyniad i hyn.

Gwelwyd bod yr holl ddyfeisiau a chyfarpar a gaiff eu hailddefnyddio yn cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio ac roedd labeli glanhau yn cael eu gosod arnynt er mwyn dangos pryd cawsant eu glanhau ddiwethaf.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion ac roeddent yn gwybod sut i gael gafael ar gyfarpar ychwanegol pe bai angen.

## **Gofal effeithiol**

## **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Dangosodd y staff wybodaeth dda mewn perthynas â darparu gofal priodol sy'n benodol i anghenion plant a chleifion ifanc.

Yn ein harolygiad blaenorol, argymhellwyd y dylid gwneud ymdrechion i godi proffil y llwybr sepsis a meithrin dealltwriaeth ohono yn Ward Oakwood. Gwelsom y gwnaed ymdrechion yn dilyn yr arolygiad i roi hyfforddiant ar waith a threialu pecyn cymorth newydd yn yr Uned Asesu Pediatrig. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fylchau yng ngwybodaeth y staff nyrsio ar y ddwy ward mewn perthynas â sepsis. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull cryfach o ymdrin â hyfforddiant a gwybodaeth mewn perthynas â sepsis, ac yr ystyrir rhoi adnodd sepsis ar waith ym mhob maes.**

At hynny, mewn perthynas â nodi plant sy'n sâl ac uwchgyfeirio'r materion hyn, cawsom wybod bod y staff yn dibynnu ar arsylwadau clinigol a phrofiad i nodi plentyn sy'n gwaethygu. Fodd bynnag, dywedodd sawl aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw y gall diffyg uwch-nyrsys, ar adegau, amharu ar allu i nodi achosion yn gynnar. Nodwyd bod adnodd SBAR (sefyllfa, cefndir, asesu ac argymell) yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, argymhellwn fod y bwrdd iechyd yn myfyrio ar y defnydd o'r adnodd cyfathrebu hwn er mwyn gwerthuso a ellir defnyddio adnodd sgorio arwyddion rhybudd cynnar er mwyn asesu dulliau presennol yn glinigol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar ei brosesau ar gyfer nodi ac uwchgyfeirio claf sy'n sâl.**

Cytunodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion. Dywedodd pob aelod o'r staff eu bod yn gwybod sut i fynegi unrhyw bryderon ynglŷn ag arferion clinigol anniogel ac y byddent yn teimlo'n ddiogel yn gwneud hynny. Roedd pob un ond un o'r ymatebwyr hyn yn cytuno y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

## **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Dywedodd rheolwyr y wardiau wrthym eu bod yn rhan o Fforymau Cymru Gyfan amrywiol i drafod a rhannu arferion da. Nodwyd bod sawl menter, megis adolygiadau o lwybrau gofal, yn cael eu hystyried yn weithredol er mwyn gwella'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion yn barhaus.

## **Cadw cofnodion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion naw claf yn ystod yr arolygiad hwn a gweld bod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda gan y staff nyrsio a meddygol. Roedd yr holl ddogfennaeth gofal a thriniaeth yn glir a chawsant eu trosi i'r gofal a ddarparwyd i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal a thriniaethau i'r cleifion sy'n unol â'u hanghenion. Fodd bynnag, nodwyd nad yw llyfrynnau / cynlluniau gofal y cleifion



yn cael eu teilwra at yr unigolyn bob amser. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal wedi'u teilwra at yr unigolyn gymaint â phosibl.**

Roedd asesiadau risg perthnasol yn cael eu cwblhau wrth dderbyn cleifion. Gwnaethom gadarnhau bod y rhain wedi'u hadolygu ar yr ysbeidiau priodol.

Roedd yr holl nodiadau yn gryno, yn ddarllenadwy ac yn hygyrch i'r holl staff er mwyn sicrhau parhad gofal. Roedd cofnodion pob claf yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwnaethom gadarnhau bod llinellau cyfathrebu priodol, a bod yr holl staff yn glir o ran pwy oedd eu rheolwyr a sut i uwchgyfeirio unrhyw faterion.

Roedd tystiolaeth o strwythur llywodraethu priodol, a oedd yn cynnwys goruchwyllo staff, achosion a materion eraill sy'n gysylltiedig â llywodraethu sy'n effeithio ar weithrediad y ward.

Gwnaethom ofyn i staff a gwblhaodd holiadur AGIC p'un a ellir dibynnu ar eu rheolwr llinell i helpu gyda thasg anodd ac a oedd yn gefnogol mewn argyfwng personol. Roedd pob un yn cytuno â hyn. Yn ogystal, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith ac yn rhoi adborth clir.

Mewn perthynas ag uwch-reolwyr, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn gwybod pwy yw eu huwch-reolwyr, eu bod yn weladwy ac yn ymrwymedig i ofal cleifion. Ymatebodd rhai aelodau o'r staff gan ddweud y gellid gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff, ac y gallai'r staff gael eu cynnwys fwy mewn penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu gwaith.

## Y Gweithlu

Gwelsom fod lefelau staffio diogel ar adeg yr arolygiad a gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol am gynnwys y gwasanaethau pediatrig yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Fodd bynnag, nodwyd bod eithriadau i hyn ar sawl sifft yn ystod y mis cyn yr arolygiad, yn enwedig ar Ward M. Nodwyd bod y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio'n gywir ar y pryd, gyda Datix ategol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n barhaus. Er i'r staff ar y ddwy ward esbonio fod camau i liniaru rhag risg yn cael eu cymryd ym mhob maes drwy rannu staff cymaint â phosibl, byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i barhau i fonitro'r cydbwysedd parhaus rhwng y risg i'r ddwy ward yn ofalus.

Nid oedd swyddi gwag nyrsio ar adeg yr arolygiad, er i ni nodi bod rhai swyddi gwag ymhlith y staff meddygol yn yr is-adran bediatrig ehangach. Roedd y swyddi gwag hyn wedi'u cofnodi ar y gofrestr risgiau is-adrannol ac roedd ymdrechion recriwtio yn mynd rhagddynt.

Gwnaethom nodi bod hyfforddiant sefydlu da ar gyfer staff newydd, a oedd yn cael ei ddatblygu a'i arwain gan nyrs datblygu ymarfer, gyda chyfraniad gan arbenigwyr

o bob rhan o'r ysbyty. Gwelsom dystiolaeth o sesiynau sgiliau parhaus a chyfleoedd gloywi i staff presennol ar adegau rheolaidd drwy'r flwyddyn.

Gwelsom fod hyfforddiant gorfodol yn dda ym mhob maes allweddol ar y cyfan. Pan oedd y ganran a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn is na'r disgwyl, cadarnhaodd y staff fod hyfforddiant interim yn cael ei ddarparu drwy sesiynau sgiliau a sesiynau goruchwyllo un i un er mwyn sicrhau bod sgiliau'n cael eu cynnal yn y cyfamser.

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw hyfforddiant arall a fyddai'n ddefnyddiol yn eu barn nhw, dywedodd y staff wrthym y byddai hyfforddiant cynnal bywyd uwch pediatrig Ewropeaidd a 'sgiliau llawfeddygol penodol' yn fuddiol.

Mae sylwadau pellach gan y staff wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, oherwydd bod y gyfradd ymateb yn isel, mae'n bosibl na fydd data'r holiadur yn cynrychioli'r holl staff sy'n gweithio ar y wardiau. Dylai'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr ymatebion a'r sylwadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:**

**Dyddiad yr arolygiad:**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Oakwood a Ward M - Ysbyty Treforys

Dyddiad yr arolygiad: 17-18 Ionawr 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi amserlen arfaethedig i AGIC ar gyfer cwblhau'r gwaith adnewyddu arfaethedig	Safonau Iechyd a Gofal 2.1	Cwblhau achos busnes ar gyfer adnewyddu. Cyflwyno'r achos busnes i'r uwch-dîm rheoli ym mis Mawrth 2023 Amserlen i gael ei chwblhau ar ôl cymeradwyo'r cynllun busnes	Pennaeth Nyrsio Arweinydd Clinigol ar gyfer Peditreg Gyffredinol Rheolwr Is-adrannol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	Ebrill 2023  Adnewyddu yn 2024
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni am driniaethau, gan gynnwys gwybodaeth ar ôl llawdriniaeth a rhyddhau, yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol yn glinigol.	4.2 / 3.1	Diweddarau gwybodaeth a thaflenni am driniaethau a chynnwys codau QR  Grŵp gorchwyl a gorffen i gael ei drefnu ym mis Ebrill 2023	Arweinydd Clinigol ar gyfer Peditreg Gyffredinol  Metron Peditreg Gyffredinol  Prif Nyrsys y Ward	Medi 2023
3. Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut i rannu gwybodaeth am	4.2	Sesiynau addysg ar gyfer y tîm nyrsio peditrig mewn perthynas â rôl y gwasanaeth CAMHS i gael eu darparu er mwyn eu galluogi i	Y Fetron i gysylltu â'r nyrs arwain ar gyfer gwasanaeth CAMHS.	Medi 2023

ddarpariaeth CAMHS â chleifion a'u perthnasau er mwyn sicrhau y caiff pryderon a disgwyliadau eu hystyried yn briodol		gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl ifanc a'u teuluoedd Caiff taflen yn amlinellu proses gofal CAMHS ei datblygu a'i rhannu â phobl ifanc a'u teuluoedd pan gânt eu derbyn.		
4. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws i'r ward gyfagos ar Ward Oakwood yn cael ei gau'n ddiogel bob amser. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried arwyddion priodol neu system larwm i roi gwybod i'r staff pan fydd ar agor	2.1	Uwchgyfeirio'r mater i'r adran ystadau er mwyn adolygu'r system larwm bresennol	Metron  Prif Nyrs Ward Oakwood	Mehefin 2023
5. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod modd glanhau'r holl ardaloedd yn y wardiau yn effeithiol ac y gweithredir yn amserol ar y camau a nodir mewn archwiliadau o brosesau atal a rheoli heintiau	2.4	Archwiliadau adolygu cymheiriaid o'r gwasanaethau oedolion, mamolaeth a phlant i ddechrau er mwyn rhoi sicrwydd o safonau atal a rheoli heintiau  Cyfarfodydd archwiliad sicrwydd yn cael eu cynnal bob mis  Archwiliadau atal a rheoli heintiau misol wedi'u cwblhau  Pryderon ynghylch atal a rheoli heintiau wedi'u codi yng nghyfarfodydd atal a rheoli heintiau misol yr is-adran plant a phobl ifanc	Penaethiaid Nyrsio / Bydwreigiaeth   Metron	Gorffennaf 2023   Cofnodion atal a rheoli heintiau misol wedi'u cofnodi er mwyn rhoi sicrwydd o ran prosesau atal a rheoli heintiau cadarn  Ebrill 2023



		DATIX wedi'i gwblhau ar gyfer materion atal a rheoli heintiau		
6. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hylif yn cael ei fonitro a'i gofnodi yn ôl y gofyn	2.5 / 3.5	Archwiliadau o ddogfennaeth yn cael eu cwblhau bob mis ar bob ward  Gweithdrefnau rheoli hylif cleifion yn cael eu hadolygu yn y sgrym dyddiol  Hyfforddiant ar gyfer rheoli hylif ar waith gan y tîm DPP	Metron  Prif Nyrsys y Ward  Tîm DPP	Archwiliadau yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd sicrwydd misol  Cofnodion yn cael eu cadw at ddibenion rheoli cadarn  Ebrill 2023
7. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth ei gwirio ddwywaith a'i chydlofnodi yn ôl yr angen.	2.6 / 3.5	Mae rhaglen rheoli meddyginiaeth ar waith  Digwyddiad dysgu o wallau meddyginiaeth.  Caiff pob gwall ei gofnodi yn Datix a'i adolygu'n wythnosol mewn cyfarfod digwyddiadau	Metron  Prif Nyrsys y Ward	Ebrill 2023
8. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull cryfach o ymdrin â hyfforddiant a gwybodaeth mewn	3.1	Mae grŵp sepsis lleol wedi cael ei ddatblygu, ac mae ymgyrch ymwybyddiaeth o sepsis yn mynd rhagddo.	Metron Nyrsio Arweinydd Clinigol	Diwedd mis Medi 2023 - Mawrth 2024

<p>perthynas â sepsis, ac yr ystyrir rhoi adnodd sepsis ar waith ym mhob maes</p>		<p>Bydd yr Is-adran yn cynnal archwiliad sepsis er mwyn rhoi sicrwydd o gydymffufiaeth â'r chwe egwyddor sepsis.</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn ystyried rhoi Sticeri Sepsis ar waith sy'n cael eu defnyddio ar wardiau oedolion ar hyn o bryd er mwyn cryfhau dulliau o reoli sepsis.</p> <p>Mae deunyddiau addysgol a ffurflenni clericio yn cael eu haddasu er mwyn helpu i adnabod sepsis. Yn ogystal, mae cerdyn gweithredu tri i mewn/tri allan wedi cael ei baratoi a chaiff ei rannu â'r staff er mwyn ymarfer y chwe egwyddor sepsis</p>		
<p>9. Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar ei brosesau ar gyfer nodi ac uwchgyfeirio claf sy'n sâl.</p>	<p>3.1</p>	<p>Mae llwybrau nodi plentyn sâl ac uwchgyfeirio wedi cael eu darparu, a byddant yn parhau i gael eu darparu, bob mis i'r holl dimau nyrsio a meddygol. Gwneir hyn drwy lwyfannau amrywiol - sesiynau addysgu cryno, sesiynau efelychu, diwrnod sgiliau nyrsio, amser addysgu dynodedig i feddygon</p>	<p>Metron Nyrsio Arweinydd Clinigol</p>	<p>Diwedd mis Medi 2023 - Mawrth 2024</p>

<p>10. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal wedi'u teilwra at yr unigolyn gymaint â phosibl.</p>	<p>6.1 / 6.2</p>	<p>Cytunir ar gynlluniau gofal ar sail Cymru gyfan ar gyfer Cofnod Gofal Nyrsio Cymru</p> <p>Mae angen i gynlluniau gofal unigol ar gyfer anghenion gofal penodol gael eu llunio a'u monitro drwy archwiliad dogfennaeth</p>	<p>Metron</p> <p>Prif Nyrsys y Ward</p> <p>Arweinwyr DPP</p>	<p>Medi 2023</p>
---	------------------	--	--	------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Sharron Price

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro, (Grŵp Gwasanaeth Castell-nedd Port Talbot a Singleton)

**Dyddiad:** 16/3/2023